Tai Amlbreswyl a Deddf Tai 2004

HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGLYN Â CHYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar y 29ain diwrnod o Fawrth 2010 wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â Thai Amlbreswyl o fewn wardiau etholiadol Glyn a Rhiw. Gelwir y cynllun hwn yn Gynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlbreswyl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2010 ("Y Cynllun"). Mae'r dynodiad yn unol â Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlbreswyl a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Mae'r Cynllun mae'r dynodiad yn berthynol iddo wedi cael Cymeradwyaeth Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru dan Ddeddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlbreswyl Cymru) Cymeradwyaeth Cyffredinol 2007 a ddaeth i rym 13 Mawrth 2007. Felly, yn rhinwedd Adran 58 isadrannau (1)(b) a (7) nid oes angen cadarnhau'r dynodiad a daw i rym ar ddyddiad sydd wedi'i nodi yn y Dynodiad

Bydd y Cynllun yn gweithio ynghyd â Chynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl yr Awdurdod Lleol a ddaeth i rym 30 Mehefin 2006. Daw'r Cynllun i rym 1af o Orfennaf 2010 ac os na fydd wedi'i ddiddymu cyn hynny neu ei ymestyn fe ddaw i ben ar 30ain o Fehefin 2015.

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl Dai Amlbreswyl yn yr ardal sydd wedi'i nodi uchod, heblaw'r rhai sydd wedi'u heithrio gan adrannau perthnasol o'r Ddeddf a'r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl.

Dylai pob perchennog, landlord neu asiant eiddo yn yr ardal sydd wedi'i henwi, ofyn cyngor yr Awdurdod Lleol yngl?n â Thrwyddedu Tai Amlbreswyl.

Er mwyn i gais gael ei ystyried, rhaid darparu manylion rhagnodedig a'r tâl gofynnol.

Mae Ffurflenni Cais ar gael o

Gorfodaeth Cynllunio a'r Amgylchedd, Gwasanaethau Rheolaethol, Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn LL29 8AR neu trwy ffonio 01492 574173

Neu, anfonwch e-bost at gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk

Houses in Multiple Occupation (HMOs) and the Housing Act 2004

PUBLIC NOTICE IN RESPECT OF ADDITIONAL LICENSING SCHEME

Notice is hereby given that Conwy County Borough Council has on the 29th day of March 2010 designated an additional licensing scheme in respect of Houses in Multiple Occupation covering the electoral wards of Glyn and Rhiw. This scheme will be known as Conwy County Borough Council Additional Licensing (Houses in Multiple Occupation) Scheme 2010 ("The Scheme"). The designation is in accordance with the Licensing and Management of Houses in Multiple Occupation and Other Houses (Miscellaneous Provisions) (Wales) Regulations 2006

The Scheme to which the designation applies has General Approval of the Welsh Assembly Government under the Housing Act 2004 (Additional HMO Licensing Wales) General Approval 2007 which approval came into force 13th March 2007. Accordingly by virtue of Section 58 subsections (1)(b) and (7) the designation need not be confirmed and will come into effect on a date specified in the Designation.

The Scheme will work in conjunction with the Local Authority's Mandatory Licensing of Houses in Multiple Occupation Scheme which came into force on June 30th 2006 . The Scheme will be effective from 1st July 2010 and unless revoked beforehand or extended will cease to have effect on 30th June 2015.

The Scheme applies to all Houses in Multiple Occupation (HMOs) within the area described above, except those exempted by the relevant sections of the Act and those already licensed under the Mandatory Licensing of Houses in Multiple Occupation Scheme.

All owners, landlords or agents of properties within the designated area should seek advice from the Local Authority regarding the Licensing of Houses in Multiple Occupation.

For an application to be considered, it must provide prescribed particulars and it must be accompanied by the requisite fee

Application Forms may be requested from

Planning and Environmental Enforcement, Regulatory Services, Civic Offices, Colwyn Bay LL29 8AR or by telephoning 01492 574173.

Alternatively, you may email regulatory.services@conwy.gov.uk

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, Conwy, LL29 8AR
01492 575250

Civic Offices, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8AR
01492 575250